Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen

**Heol Gellionnen**

**Clydach**

**Abertawe**

**SA6 5HE**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2011**

**Rhif yr ysgol: 6702232**

**Rhif yr arolygiad:1894**

**gan**

**Alan Walters**

**Arolygydd Cofnodol o dan gontract i Estyn**

Adroddiad ar Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen

Mehefin 2011

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Sefydlwyd Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen ym Medi 1997 ar hen safle Ysgol Uwchradd Cwmtawe yn nhref fechan Clydach. Dinas a Sir Abertawe yw'r awdurdod lleol (ALl). Mae wedi'i dynodi'n ysgol Gymraeg.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o 3-11 oed. Mae 187 o ddisgyblion llawn amser ar gofrestr yr ysgol ynghyd â 56 o blant meithrin rhan amser.

Saesneg yw'r brif iaith a siaredir yn y cartrefi.

Derbynnir plant i'r ysgol yn llawn amser ar ddechrau'r flwyddyn yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae gan yr ysgol ddisgyblion o'r ystod allu lawn ac mae eu cyrhaeddiad yn amrywio pan ddechreuant yn yr ysgol.

Disgrifir natur y dalgylch gan yr ysgol fel un nad yw'n ffyniannus nac yn anffyniannus ond daw nifer o'r disgyblion o ardal sydd o dan anfantais economaidd.

Mae tua 11% o'r disgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol yn rhad ac am ddim. Mae 21% o'r disgyblion ag anghenion addysgol arbennig (AAA), ac mae 1% ohonynt â datganiad o AAA.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Mehefin 2005.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen yw £3,197 sy`n cymharu ag uchafswm o £5,744 ac isafswm o £2,550 ar gyfer ysgolion cynradd yn Abertawe. Gan yr ysgol y mae`r 45 cyllideb uchaf fesul disgybl o`r 89 ysgol gynradd yn Abertawe.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae'r ysgol yn dda am fod:

- ethos yr ysgol yn sicrhau bod y plant yn cyrraedd eu potential;
- safonau lles disgyblion yn gadarn ac yn cyfrannu i'w medrau cymdeithasol a bywyd;
- yr addysgu'n dda ar draws yr ysgol;
- y gofal, cymorth ac arweiniad yn annog ymglymiad y disgyblion yn eu hysgol a'u cymuned ehangach; ac
- yr arweinyddiaeth a`r rheolaeth yn gadarn ac mae gweledigaeth glir yn cael ei rhannu gyda holl bartneriaethau da  sy'n ynghlwm â bywyd yr ysgol.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- drwy weithdrefnau hunan arfarnu effeithiol, mae gan yr ysgol dargedau clir ar gyfer gwella;
- mae`r cynllunio yn strategol a datblygiadol ac yn ffocysu'n benodol ar godi safonau a gwella darpariaeth;
- partneriaethau  cymunedol cryf sy'n helpu gwella safonau a sicrhau bod y disgyblion yn cael cyfleoedd cyfoethog; a
- thimau arweinyddol cryf gyda gweledigaeth gytûn a chlir er mwyn sicrhau gwelliant.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i`r ysgol:

**A1** barhau i ddatblygu cyfleoedd i blant abl a thalentog;

**A2** cynnal y safonau da sydd eisioes yn bodoli ar draws yr ysgol; a

**A3** sicrhau bod yr arferion da mewn asesu ar gyfer dysgu a marcio yn datblygu'n gyson ar draws yr ysgol.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy`n dangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
| --- | --- |

**Safonau: Da**

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o CA1 i ddiwedd CA2. O'r asesiad sylfaen hyd at ddiwedd CA2 mae gwerth ychwanegol yn dda.

Mae canlyniadau CA1 wedi gwella dros y 3 mlynedd diwethaf yn enwedig mewn gwyddoniaeth, er nad yw canlyniadau CA1 yn cymharu cystal ag ysgolion y teulu.

Mae llawer o ddisgyblion yn cyrraedd L2+ yn y Gymraeg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r DPC. Mae canlyniadau'r ysgol ar ddiwedd CA1 yn debyg iawn i gyfartaledd y teulu a Chymru yn y Gymraeg, gwyddoniaeth a'r DPC, ond ychydig yn is ym mathemateg.

Mae'r merched yn cyflawni'n uwch na'r bechgyn. Yn y flwyddyn hon roedd nifer o fechgyn ar y rhestr AAA.

Mae`r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyrraedd safonau da yn CA2 wrth gaffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd ac mae'r ysgol wedi cynnal canlyniadau da ar ddiwedd CA2 o 2007 – 2010 ym mhob pwnc craidd a'r DPC.

Mae canlyniadau CA2 yn dda ac yn cymharu'n ffafriol â chanlyniadau'r teulu, ALl (Awdurdod Lleol) a Chymru gyfan .

Mae’r ysgol yn cymharu`n dda gydag ysgolion yn y teulu yn CA2 yn enwedig yn y Gymraeg (1af) a’r DPC (3ydd).

Mae’r ysgol yn perfformio’n dda tu fewn i’r teulu wrth edrych ar ddarllen Cymraeg (1af) a Saesneg (2il). Mae’r ysgol yn perfformio’n dda wrth edrych ar ddisgyblion sy’n cyrraedd lefelau disgwyliedig mewn darllen, ysgrifennu, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae’r disgyblion yn cyflawni’n well wrth ysgrifennu yn Saesneg nag ydynt yn y Gymraeg.

Mae gwelliant yn y canran o ddisgyblion sy’n cyrraedd L5 yn CA2 wedi digwydd dros y 2 flynedd ddiwethaf , heblaw am Saesneg ac roedd mwy o ferched yn cyrraedd L5 ym mhob pwnc.

Yn 2010 cyflawnodd y bechgyn lefelau uwch na’r merched yn CA2 ond roedd canran uwch o ferched ar y rhestr AAA.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion fedrau cyfathrebu cadarn. Maent yn gwrando`n astud, siarad yn glir, darllen yn hyderus ac ar y cyfan yn ysgrifennu`n ymestynnol ac yn gyson mewn pynciau eraill ar draws y cwricwlwm. Mae medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm yn datblygu`n briodol i`r rhan fwyaf o`r disgyblion. Mae gan y rhan fwyaf o`r disgyblion fedrau cyfrifiadurol a thechnoleg priodol ac mae`r rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu medrau ehangach priodol, yn enwedig fel dysgwyr annibynnol.

Mae pob un o’r disgyblion yn gwneud cynnydd da gyda’u medrau yn yr iaith Gymraeg.

**Lles: Da**

Mae gan yr holl ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o faterion iechyd ac maent yn cyflawni’n dda yn eu datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae bron pob un yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod sut y gallant gadw’n iach. Maent yn mwynhau gweithgareddau gweithredol a chorfforol yn enwedig yr yr ardal allanol.

Mae`r disgyblion yn dangos llawer o ddiddordeb a chymhelliant ac mae hyn yn cael effaith bositif ar ethos yr ysgol. Mae pob un o’r disgyblion yn gwrtais ac yn ymateb yn barchus i oedolion.

Mae’r gyfradd bresenoldeb, sef tua 93.6%, yn uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol ac mae`r holl ddisgyblion yn brydlon. Mae aelodau o gyngor yr ysgol a’r pwyllgor eco yn cymryd rhan weithredol trwy wneud penderfyniadau, sy’n cael effaith gadarnhaol ar fywyd yr ysgol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio profiadau dysgu llwyddiannus a diddorol sy'n ennyn a chynnal diddordeb y disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae cynllunio ar draws y cwricwlwm yn sicrhau cyfleoedd i'r disgyblion i gyd greu a diwallu eu syniadau yn ogystal â sicrhau bod y disgyblion yn caffael medrau llythrennedd, cyfathrebu, rhifedd a TGCh yn dda.

Mae bron pob un disgybl yn gweithio ar y dasg dan sylw ac yn drafod a mynegi barn safonol fesul gwaith pâr a grŵp.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r iaith Gymraeg a'r dimensiwn Cymreig ei ddatblygu'n dda o'r cychwyn cyntaf ar draws y cwricwlwm ac ar hyd yr ysgol .

Mae cynllunio'r cwricwlwm yn dda ac yn diwallu anghenion grwpiau ac unigolion penodol yn dda.

Mae'r ysgol yn sicrhau bod darpariaeth effeithiol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'r angen i ofalu am yr amgylchedd a'r byd amrywiol a chynaliadwy y maent yn byw ynddo. Defnyddir cyd-addoli yn briodol i amlygu materion sy'n ymwneud â thegwch ac anghydraddoldeb.

Mae`r cyfleoedd cyfoethogi yn amrywiol ac mae nifer fawr o ddisgyblion yn manteisio arnynt.

**Addysgu: Da**

Mae'r addysgu yn dda a defnyddir adnoddau'n effeithiol i gefnogi'r dysgu. Mae cwestiynu agored synhwyrol yn ymestyn dealltwriaeth disgyblion mewn amgylchedd dysgu cadarnhaol diogel. Mae gan yr athrawon ac oedolion gwybodaeth bynciol dda ac mae ganddynt ddisgwyliadau o safon uchel i bawb.

Mae pob un o'r staff addysgu, gan gynnwys staff cymorth, yn fodelau iaith dda ac yn mynnu derbyn ymatebion ieithyddol cywir. Maent yn defnyddio strategaethau ymddygiad yn effeithiol i sicrhau ymddygiad o safon ar draws yr ysgol. Mae gan yr holl staff berthynas dda sy'n meithrin dysgu ysgogol a hwylus.

Mae adborth llafar sensitif yr athrawon yn galluogi'r disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a sut i wella. Mae marcio gwaith y disgyblion yn llai cyson ac mewn rhai achosion nid yw bob amser yn dangos yn glir y ffordd ymlaen iddynt i wella'u gwaith.

Mae nifer o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn chwarae rôl amlwg ar draws yr ysgol ac yn cael effaith gadarnhaol ar godi safonau.

Caiff cynnydd disgyblion eu tracio'n effeithiol ar draws yr ysgol er mwyn bodloni anghenion dysgu'r disgyblion.

Mae adroddiadau i rieni yn cyrraedd y gofynion statudol, gyda'r wybodaeth briodol yn ei lle. Mae rhieni a gofalwyr yn teimlo'u bod yn cael gwybodaeth dda am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae'r gwasanaethau boreol effeithiol yn hybu gwerthoedd yr ysgol sef '*ymestyn am y gorau gyda'n gilydd'*. Mae gwybodaeth dda iawn ar gael i ddisgyblion a rhieni am fywyd yr ysgol sy'n cynnwys prosbectws yr ysgol, cylchlythyrau rheolaidd, adroddiad blynyddol y llywodraethwyr a gwefan.

Mae trefniadau sefydlu ar gyfer disgyblion newydd yn glir ac mae'r trefniadau trosglwyddo trwyadl i addysg uwchradd wedi'u hen sefydlu. Caiff y ddarpariaeth ddychmygus a threfnus ar gyfer lles a manteision byw'n iach eu hyrwyddo'n glir yn y cwricwlwm. Mae mentrau cenedlaethol fel y Cyfnod Sylfaen a datblygu ffordd o fyw iach yn cael eu hannog a'u cefnogi'n gryf. Mae mentrau fel asesu ar gyfer dysgu, ioga a datblygu sgiliau mân yn hybu cynnydd mewn cyflawniad disgyblion.

Mae gan yr ysgol bolisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu ac mae'r ysgol yn bodloni rheoliadau diogelu yn llawn. Mae gan yr ysgol weithdrefnau a systemau effeithiol ar gyfer nodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u gwaith. Mae clybiau pwrpasol ar ôl ysgol yn effeithio'n bositif ar sgiliau cymdeithasol y disgyblion.

Ceir darpariaeth gynlluniedig ar gyfer pob un o'r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r gefnogaeth a'r cymorth yn effeithiol ac mae cysylltiadau da gydag asiantaethau allanol arbenigol.

Caiff rhieni a gofalwyr eu hysbysu'n dda ac fe gaiff y cynlluniau addysg unigol eu harfarnu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae gweithdrefnau adrodd ar anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol yn bodloni gofynion statudol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer pob disgybl ac mae'n gymuned gwbl gynhwysol. Mae'r cwricwlwm yn hygyrch iawn i bawb, beth bynnag fo'u rhyw, eu hil neu'u crefydd ac mae'r ysgol yn bodloni ei dyletswyddau statudol.

Mae'r ysgol yn defnyddio ei hystafelloedd yn effeithiol i ddarparu amgylchedd dysgu ysgogol i gefnogi`r addysgu a`r dysgu ac mae adeiladau a thir yr ysgol yn cael eu cynnal yn dda . Caiff cyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da ei weddu`n dda i anghenion dysgu`r disgyblion. Gwneir defnydd llawn o adnoddau sydd ar gael yn y gymuned i ychwanegu at y cwricwlwm a`i gyfoethogi.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae pob un o`r staff yn rhannu gweledigaeth, gwerthoedd a diben ar y cyd. Mae`r pennaeth yn arwain yn dda a chaiff ei chefnogi`n effeithiol gan dî m o reolwyr brwdfrydig. Mae arweinwyr yn cyfleu disgwyliadau uchel ar gyfer sicrhau gwelliant ac maent yn herio staff yn gadarnhaol ac yn effeithiol.

Mae disgyblion a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae gan bob un ohonynt gyfrifoldebau penodol i ddatblygu'r ysgol fel cymuned ddysgu. Caiff hyn effaith dda ar ethos yr ysgol. Gwella'r ysgol trwy godi safonau ymhellach yw ffocws y cynllunio strategol.

Mae'r llywodraethwyr yn ymgymryd â'u rolau a'u cyfrifoldebau yn gydwybodol ac mae ganddynt ddiddordeb cryf ym mywyd yr ysgol o ddydd i ddydd gan herio`r ysgol fel ffrind beirniadol. Caiff polisïau a mentrau, gan gynnwys rhai sy`n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, eu rhoi ar waith yn gyson. Mae gwybodaeth dda ganddynt am berfformiad yr ysgol a gweledigaeth glir yn y ffordd dylai`r ysgol symud ymlaen.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r ysgol yn cynllunio'n dda ar gyfer gwella sydd yn seiliedig ar sylfaen o gynllunio strategol cryf dros amser. Mae gan reolwyr ac arweinwyr ddealltwriaeth dda o gryfderau a gwendidau'r ysgol ac mae hyn yn helpu sicrhau safonau a darpariaeth dda.

Defnyddir data perfformiad yn dda ac yn gyson i fonitro cynnydd a chynllunio ar gyfer gwella safonau. Mae`r ysgol yn gofyn barn disgyblion, rhieni/gofalwyr a`r gymuned ehangach yn rheolaidd.

Mae'r staff wedi cael eu cynnwys mewn ystod dda o gyfleoedd hyfforddi a datblygu. Mae rhain yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a phartneriaid eraill. Mae gan yr ysgol hanes da o gynnal neu wella safonau a darpariaeth. Gwnaed cynnydd da ers yr arolygiad diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau gyda rhieni, y gymuned, busnesau lleol ac eraill yn cael effaith da ar safonau addysgol a lles y plant. Mae cynlluniau trosglwyddo, y cytunodd y clwstwr o ysgolion Cymraeg a'r ysgolion uwchradd lleol arnynt, yn galluogi disgyblion hŷn i gael eu paratoi'n briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg.

Mae`r staff yn dda am ganolbwyntio ar gynllunio cynhwysfawr sy'n sylfaen gadarn ar gyfer gwelliant parhaus.

Mae ymweliadau â'r gymuned ac ymwelwyr o'r gymuned yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi profiadau disgyblion. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliannau eraill ei datblygu'n dda iawn trwy gysylltiadau ag ysgolion eraill ac elusennau priodol.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Caiff staffio ac adnoddau ariannol eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi gwella dysgu.  Mae gan athrawon wybodaeth ac arbenigedd priodol i gyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol.  Caiff staff cymorth eu defnyddio'n dda ac maent yn gweithio'n bwrpasol ochr yn ochr ag athrawon yn yr ystafell ddosbarth, yn y swyddfa neu ar ddyletswyddau a swyddi neu dasgau priodol trwy gydol y dydd.  Mae systemau rheoli perfformiad wedi eu sefydlu`n dda.

Mae gwariant wedi'i gysylltu'n glir â blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol ac mae rheolwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant i sicrhau ei fod yn aros o fewn y gyllideb mewn cyfnod anodd.  Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion, darpariaeth ac yn ei defnydd o gyllid.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Roedd chwech deg dau o rieni/gofalwyr wedi cwblhau`r holiadur. Roedd pob un wedi mynegi barnau cadarnhaol am yr ysgol, yn enwedig gyda boddhad cyffredinol, cynnydd disgyblion, arweinyddiaeth a bod eu plant yn hoffi`r ysgol ac wedi ymgartrefu`n dda. Mae bron pob un yn credu bod yr addysgu`n dda, bod eu plentyn yn ddiogel a bod plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff rheolaidd.

**Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr**

Roedd naw deg dau o ddisgyblion CA2 wedi cwblhau`r holiadur. Mae bron pob plentyn yn teimlo`n ddiogel ac yn cytuno bod yr ysgol yn delio`n dda ag unrhyw fwlio. Mae bron pob un yn gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os maent yn poeni, ac maent yn meddwl bod ganddynt ddigon o lyfrau, cyfrifiaduron ac offer yn yr ysgol. Mae bron pob un yn meddwl bod eu gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella`u gwaith ysgol. Mae pob plentyn yn bositif iawn am y ffordd mae athrawon yn eu helpu i wneud cynnydd yn eu dysgu, darparu cyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd a`u dysgu sut i gadw`n iach. Mae bron pob un yn meddwl bod ymddygiad disgyblion eraill yn dda.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Alan Walters | Arolygydd Cofnodol |
| Catrin Sian Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Eleri James | Arolygydd Cymheiriaid |
| Delyth Mainwaring | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |